**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AC
Llywydd

13 Rhagfyr 2017

Annwyl Llywydd,

**Diwygio'r Cynulliad: Anghymhwyso, Difenwi, Dirmyg Llys a Braint y Cynulliad**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Hydref 2017 yn dilyn gohebiaeth flaenorol ac am y cyfle i roi sylwadau ar faterion yn ymwneud ag anghymwyso person rhag bod yn Aelod Cynulliad, difenwi, dirmyg llys a braint y Cynulliad cyn i'r Cynulliad ddatblygu deddfwriaeth diwygio'r Cynulliad.

Rydym wedi trafod eich gohebiaeth mewn cyfarfodydd diweddar ac wedi penderfynu, ar hyn o bryd, nad ydym mewn sefyllfa i ymrwymo i wneud unrhyw waith manwl ar y materion hyn.

Y rheswm yn rhannol am hyn yw'r pwysau ar ein rhaglen waith y gwnaethoch gyfeirio ato yn eich llythyr, a fyddai'n ein hatal rhag gwneud cyfiawnder â'r materion a nodwyd gennych.

Treuliodd ein pwyllgor blaenorol ryw 5 mis yn edrych ar faterion anghymhwyso a byddai ailedrych ar y materion hyn yn drylwyr yn cymryd cryn amser. Fodd bynnag, rydym wedi edrych eto ar adroddiad ein Pwyllgor blaenorol yn 2014, *Ymchwiliad i Anghymhwyso Person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru* ac yn credu ei fod yn sylfaen cadarn ar gyfer unrhyw waith ymgynghori rydych yn bwriadu ei wneud.

Yn ogystal, mae gan y materion eraill—difenwi, dirmyg llys a braint y Cynulliad—arwyddocâd cyfansoddiadol, cyfreithiol ac o ran enw da. Byddai'n rhaid i unrhyw safbwyntiau ynghylch diwygio deddfwriaethol mewn cysylltiad â hwy gael eu hystyried yn ofalus iawn ar ôl ymgynghori'n fanwl ac ar ôl i'r Pwyllgor eu hystyried.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Ar wahân i'r pwysau amser, mae angen bod yn ymwybodol hefyd o'n rôl ni yn craffu ar gynigion deddfwriaethol sy'n dod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn credu y bydd lle i ni ychwanegu gwerth drwy graffu ar unrhyw Fil drafft a baratoir gan y Comisiwn maes o law, neu Fil ar ôl cael ei gyflwyno.

Yn gywir,



**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.